**Grŵp Aberystwyth Gwyrddach** *(yn Gymraeg drosodd)*

# Newsletter

(Printed on re-cycled paper)

**Greener Aberystwyth Group** **No. 4 February 2009**

www.aber-gag.org.uk

**Editor: Laurie Wright**

........................................................

## Rare Moss Found

On a visit to Aberystwyth last year, Dr Sam Bosanquet, a botanist from the Countryside Council for Wales who specialises in mosses, was amazed to find a colony of Blunt-leaved Bristle-moss (*Orthotrichum obtusifolium)* on a tree in Plascrug Avenue. The species had never been found before



in Wales and it is listed as *Endangered* in the British Red Book of rare plants. Dr Bosanquet reported that this moss was relatively widespread in the English Midlands until about 1920, but was thought to have become almost extinct as a result of air pollution and Dutch Elm Disease. It was believed that a few colonies on a tree in north-east Scotland were the sole survivors until the moss was found on a Bramley Apple tree in Cambridgeshire in 2007. Dr Bosanquet stressed that the Aberystwyth find needs to be looked after so that in time it will be able to spread to other trees in this green heart of our town

## Tree Planting Schemes

From time to time GAG has promoted ideas for tree planting around the town. Prompted by the potential impact of developments taking place in the lower Rheidol valley GAG has recently joined forces with the Cardiganshire Horticultural Society to pool ideas and expertise. The first joint initiative aims to promote a coordinated planting plan for the approach road from the Parcyllyn roundabout to the town centre: identified in the Aberystwyth Masterplan as a priority area for high-quality landscaping.

## Woodlands for Wales Strategy

GAG has submitted comments on the Welsh Assembly Government's consultation paper on a revised strategy for Welsh woodlands. The references to the importance of trees and woodland in urban areas were warmly welcomed

## Inventory Report

A meeting was held recently between representatives of GAG, Ceredigion County Council and the Countryside Council for Wales to discuss how the Report on Aberystwyth Green Spaces commissioned by GAG earlier this year might be used by the two other organisations

## Planning Applications

Ceredigion Planning Committee has recently imposed strict conditions to protect trees on developments at Penglais and Bronpadarn. GAG members are monitoring both situations to try to ensure that these restrictions are honoured.

## Plascrug Avenue and Stream

Two trees overhanging Plascrug school grounds were felled recently, following consultation with GAG. Further consultation is anticipated on other tree management work. Volunteers from GAG continue to remove rubbish from the Plascrug stream on a regular basis. Since GAG was formed, hundreds of balls, plastic bottles, bags and crisp packets have been extracted, in addition to the more occasional shopping trolley and bicycle. The improvement in this attractive avenue is there for all to see. However, those with sharp eyes may be particularly rewarded by a glimpse of the iridescent blue flash of the kingfisher now seen regularly along Plascrug stream in the winter months. If you would like to help and can spare the time to join the rota of volunteers please e-mail us at post@aber-gag.org.uk.



## GAG Leaflet

Aberystwyth Town Council has made a generous donation to GAG to enable the production of a leaflet to promote the work of the group to the wider public of the town. It is hoped that an attractive leaflet will be ready for distribution throughout the town in the spring. Help is needed with this task. Would you be willing to post leaflets though letterboxes in an area of the town? The more volunteers we can recruit the easier the job will be. GAG has been run to date by a very small group. Now is the opportunity for much greater active involvement of the many people in Aberystwyth who support the GAG aim of *protecting your green spaces.* Please contact us *now* by e-mail (post@aber-gag.org.uk) if you can help with the distribution of the leaflets.

## Saplings Wanted

Llwyn yr Eos School, Penparcau, are planning to plant trees, in consultation with GAG members. If you can donate saplings, please let us know by e-mail at: post@aber-gag.org.uk.

*(English overleaf)*

# Cylchlythr

(Ar bapur wedi ei ail-gylchu)

**Rhifyn 4    Chwefror 2009**

**Golygydd: Laurie Wright**

**Grŵp Aberystwyth Gwyrddach**

**Greener Aberystwyth Group**

**www.aber-gag.org.uk**

........................................................................

## Mwsogl Prin yn Aberystwyth

Yn Aberystwyth y llynedd, fe synnwyd Dr Sam Bosanquet, botanegwr o Gyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n arbenigo mewn mwsogl, wrth ffeindio clwstwr o Wrychfwsogl Pŵlddail (*Orthotrichum obtusifolium)* ar goeden ym Mhlascrug. Ni welwyd y rhywogaeth hon erioed yng Nghymru o'r blaen, ac fe restrir fel *Mewn perygl o ddiflannu* yn y llyfr *British Red Book of rare plants*.



Yn ôl Dr Bosanquet, roedd y mwsogl hwn yn gymharol gyffredin yng Nghanolbarth Lloegr tan tua 1920, ond credir ei fod wedi marw allan bron oherwydd llygredd yr awyr a chlefyd llwydden yr Isalmaen. Fe gredwyd mai dim ond ychydig o glystyrau ar goeden yng Ngogledd-Ddwyrain yr Alban oedd ar ôl, nes cafwyd hyd i'r mwsogl ar afallen Bramley yn swydd Caergrawnt yn 2007. Pwysleisiodd Dr Bosanquet bod rhaid edrych ar ôl y darganfyddiad sydd yn Aberystwyth, fel y bydd ymhen amser yn ymledu i goed eraill yng nghanolfan werdd ein tref.

## Cynlluniau Plannu Coed

O bryd i'w gilydd mae GAG wedi hybi syniadau am blannu coed yn y dref. Wrth weld y datblygiadau sy'n dod i waelod dyffryn Rheidol, mae GAG wedi ymuno â Chymdeithas Arddwrol Sir Aberteifi i rannu syniadau a phrofiadau. Nôd y fenter gyntaf ar y cyd yw hyrwyddo cynllun plannu cyd-drefnedig i'r ffordd rhwng gylchfan Parcllyn a chanol y dref. Mae Cynllun Mawr Aberystwyth yn ei enwi fel ardal sy'n haeddu gwaith tirlunio o safon uchel.

## Strategaeth Coetiroedd i Gymru

Mae GAG wedi cyflwyno sylwadau ar ddogfen ymgynghorol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar strategaeth newydd i Goetir Cymru. Roedd ein cyfeiriadau at bwysigrwydd coed a choetir mewn trefi yn cael croeso cynnes.

## Adroddiad Rhestr Adnoddau

Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar rhwng cynrychiolwyr GAG, Cyngor Ceredigion a Chyngor Cefn Gwlad Cymru i drafod sut y gall y ddau gorff olaf ddefnyddio'r Adroddiad ar Wyrddfannau Aberystwyth a wnaethpwyd dan nawdd GAG.

## Ceisiadau Cynllunio

Yn ddiweddar, mae Pwyllgor Cynllunio Ceredigion wedi gosod amodau llym i warchod coed ar ddatblygiadau ar ffordd Penglais ac yn Bronpadarn. Mae aelodau GAG yn cadw golwg ar y ddwy safle i sicrhau bod yr amodau yn cael eu parchu.

## Lôn Goed a Nant Plascrug

Torrwyd dwy goeden yn ddiweddar a oedd yn tyfu dros faes chwarae ysgol Plascrug, yn dilyn ymgynghoriad â GAG. Disgwylir rhagor o ymgynghoriad ar waith trin coed. Mae gwirfoddolwyr GAG yn dal i dynnu sbwriel allan o nant Plascrug yn gyson. Ers sefydlu GAG, tynnwyd cannoedd o beli, poteli plastig, bagiau a phacedi cresion, yn ogystal ac ambell troli neu feic. Mae gwelliant y lôn goed hardd hon yn amlwg i bawb. Efallai y bydd y rhai sydd â llygaid craff yn gweld glas y dorlan yn gwibio heibio, sydd wedi ymddangos droeon yn ystod y gaeaf. Os dymunwch helpu, a bod amser gennych i ymuno â rota y gwirfoddolwyr, anfonwch e-bost at post@aber-gag.org.uk.



## Taflen GAG

Mae Cyngor Tref Aberystwyth wedi dyfarnu rhodd hael i GAG i gynhyrchu taflen fydd yn cyflwyno gwaith y grŵp i'r cyhoedd yn y dref. Gobeithio y bydd taflen ddeniadol yn barod i'w dosbarthu trwy'r dref yn y gwanwyn. Mae angen help gyda'r gwaith yma. A fyddech chi yn fodlon dosbarthu taflennu trwy flychau llythyrau mewn un ardal o'r dref? Po fwyaf o wirfoddolwyr, hawsaf fydd y gwaith. Grŵp bach iawn sydd wedi rhedeg GAG hyd yma, ond nawr y daw cyfle i'r llawer o bobl sydd yn cefnogi nôd GAG o warchod eich mannu gwyrdd. Os gwelwch yn dda, cysylltwch â ni nawr trwy e-bost (post@aber-gag.org.uk) os y gallwch helpu i ddosbarthu'r taflennu.

## Eisiau Coed Ifanc

Mae Ysgol Llwyn yr Eos, Penparcau, yn bwriadu plannu coed, mewn cyweithrediad gyda GAG. Os gallwch roi coed ifanc, gadewch i ni wybod, os gwelwch yn dda trwy e-bost: post@aber-gag.org.uk.